

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid, 20/10/20

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), C.Larsen, W.Tudor Owen, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas

1. Cadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd W.L.Davies yn Gadeirydd ar gyfer 2020/21 (unfrydol).

2. Is-gadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd I.C.Thomas yn Is-gadeirydd ar gyfer 2020/21 (unfrydol).

3. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd C.Williams

4. Datgan Buddiant Personol

Eitem 6(i) – Ceisiadau Ariannol – Papur Dre – Y Cynghorydd W.L.Davies. Bu iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Penderfynwyd ethol yr Is-gadeirydd i'r Gadair yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Eitem 6(ii) – Ceisiadau Ariannol – CPD Caernarfon Town – Y Cynghorydd C.Larsen. Bu iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

5. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

(1) Y Liff yn Adeilad yr Institiwt

Nododd y Clerc:

- (1) Bod gan y Cyngor gytundeb gyda KONE i roi "Service" i'r lifft, oedd wedi malu.
- (2) Mai siomedig oedd gwasanaeth cwsmer y cwmni hwnnw.
- (3) Bod contract yn bodoli efo nhw hyd at Awst 2021 i roi "Service" i'r lifft.
- (4) Ei fod wedi derbyn manylion cwmni Knowsley Lift Services, a gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio nhw (a chysylltu efo cwmnïau eraill pe byddai angen dyfynbris) er mwyn atgyweirio'r lifft.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (a) Gofyn i'r Clerc ofyn am farn gyfreithiol o ran os oedd posibil dod allan efo'r contract efo Kone.**

(b) Gofyn i'r Clerc wneud trefniadau i atgyweirio'r liff t cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Sgrîn Fawr

Nododd y Clerc:

- (1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu cefnogi ehangu defnydd y Sgrîn Fawr eleni, boed am ddau benwythnos neu am wythnos ar ei hyd.
- (2) Byddai cost hyn yn ddwbl y llynedd, sef cyfanswm o £2,350 a TAW ddwy waith.

Cafwyd trafodaeth os oedd yn ddoeth llogi Sgrîn Fawr o gwbl eleni, yn sgîl y sefyllfa efo Covid-19.

Penderfynwyd gohirio gwneud unrhyw benderfyniad os ddylid llogi'r Sgrîn Fawr o gwbl hyd nes y cyfarfod llawn o'r Cyngor ar y 3ydd o Dachwedd (unfrydol).

6. Ceisiadau Ariannol

Penderfynwyd:

(1) Ar y taliadau canlynol:

Enw	Swm	Talu allan o
(i) Papur Dre	£500 (unfrydol)	Amcangyfrifon
(ii)CPD Caernarfon Town	£1,000 (unfrydol)	Pot "Arall"

(2) Y dylid atgoffa sefydliadau bod angen derbyn ceisiadau blynyddol cyn y 10fed o Dachwedd bob blwyddyn (unfrydol).

7.Awdit 2019/20

Cyflwynwyd ymateb y Cyngor Tref ar y sylwadau a dderbyniwyd ar Awdit 2019/20.

Nododd y Clerc fod sylwadau wedi dod i law gan yr Archwilydd Allanol ar 5 pwnc oedd angen eglurder arnyn nhw, ac roedd wedi ymateb iddyn nhw fesul un. Roedd yn awr yn disgwyl clywed yn ôl gan yr Archwilydd Allanol. Cynigiodd ateb unrhyw gwestiwn gan aelodau ar y gwaith papur oedd wedi eu cyflwyno iddynt.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a diolch i'r staff am y gwaith manwl oedd wedi cael ei wneud er mwyn ymateb i'r pwyntiau godwyd gan yr Archwilydd Allanol (unfrydol).

8.Amcangyfrifon 2021/22

- (a) Cyflwynwyd Amcangyfrifon drafft ar gyfer 2021/22.
- (b) Gofynnwyd am ganiatad y pwyllgor i symud y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid er mwyn gallu trafod yr Amcangyfrifon eto ym mis Tachwedd, ac adrodd i'r Cyngor Llawn fis Rhagfyr.

Nododd y Clerc:

- (1) Oherwydd Covid-19, ei bod wedi bod yn flwyddyn anarferol, ac yn anodd cynllunio'n ariannol ar gyfer 2021/22.
- (2) Bod y golofn "Nodiadau" ar y daenlen Excel yn esbonio'r cyd-destun i'r ffigyrau oedd yn cael eu argymhell ar gyfer Amcangyfrifon 2021/22

Penderfynwyd (unfrydol):

- (a) Diolch i'r staff am y gwaith manwl oedd wedi cael ei wneud hyd yma ar yr Amcangyfrifon.
- (b) Cynnal cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Cyllid ar y 19eg o Dachwedd er mwyn gorffen trafod yr Amcangyfrifon. Byddai hyn yn galluogi'r Clerc adrodd yn derfynol ar y pwnc i'r Cyngor Llawn ar y 1af o Ragfyr, er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar y Precept ddechrau'r flwyddyn.
- (c) Gofyn i'r Clerc edrych ar y gwariant ar y pennawd "Gwres a Golau" gan ei fod yn edrych yn uchel.
- (d) Gofyn i'r Clerc wirio'r penderfyniad o ran codi'r taliadau am logi ystafelloedd dros y 5 mlynedd nesaf.

9.Trefniadau Bancio

Yn dilyn penderfyniad y pwyllgor hwn fis Mehefin, adroddwyd fod y Clerc wedi trafod y mater gyda'r Archwilydd Mewnol er mwyn derbyn arweiniad, ac wedi symleiddio trefniadau fel fod llai o gyfrifon banc gan y Cyngor, sef y Cyfrif Cyfredol, y Cyfrif Cynilo, y Gronfa Argyfwng a'r Cyfrif Imprest.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____